NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Abladiad radioamledd deubegynol endosgopig ar gyfer rhwystrau bustlog malaen

14 Tachwedd 2024

Dim ond fel rhan o astudiaeth ymchwil y gellir rhoi'r driniaeth hon, hynny am nad oes tystiolaeth ddigonol ynghylch pa mor dda mae'r driniaeth hon yn gweithio. Dylai eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol siarad â chi am yr ymchwil.

Gall canser dwythell y bustl neu ganser y pancreas flocio'r sianelau sy'n cludo bustl a hylifau treulio o goden y bustl a'r pancreas i'r coluddyn bach (rhwystr bustlog malaen). Gall hyn achosi'r clefyd melyn, cyfog, ymchwydd a phoen yn yr abdomen. Caiff y rhwystr ei drin fel rheol drwy fewnosod tiwbiau bach o'r enw stentiau, sy'n helpu i gadw'r sianelau ar agor ac yn draenio'n iawn. Ond mae'r stentiau hefyd yn gallu cael eu blocio.

Yn y driniaeth hon, caiff tiwb tenau â chamera ar y pen (endosgop) ei fewnosod drwy'r geg i'r rhwystr. Yna, caiff dyfais ei phasio drwy'r endosgop a'i defnyddio i gyflwyno'r ynni gwres (radioamledd) i ddinistrio (abladu) y rhwystr yn y sianelau. Cyflawnir y driniaeth hon cyn mewnosod stentiau neu i glirio stentiau wedi'u blocio. Y nod yw lleihau symptomau.

**A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?**
Dylech fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau am eich gofal.

Dylai eich gweithiwr iechyd proffesiynol esbonio risgiau a manteision y driniaeth hon ac egluro sut y'i gwneir. Dylai drafod eich opsiynau a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Dylai gynnig rhagor o wybodaeth i chi am y driniaeth. Gellir cynnwys eich teulu neu'ch gofalwyr yn y broses os hoffech hynny, neu os bydd angen eu cynnwys.

Gofynnir i chi benderfynu a ydych yn cytuno (rhoi cydsyniad) i gael y driniaeth. Dysgwch ragor am roi cydsyniad i driniaethau ar wefan y GIG.

### Rhai cwestiynau i feddwl amdanynt

- Faint o apwyntiadau y bydd eu hangen arnaf?
- Beth yw'r manteision posibl? Pa mor debygol ydw i o'u cael?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- A fydd yn rhaid i mi aros yn yr ysbyty?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd yn gweithio neu os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth fydd yn digwydd os na fyddaf am gael y driniaeth?
- A oes triniaethau eraill ar gael?

### Gwybodaeth a chymorth

Gall tudalen we y GIG ar ganser dwythell y bustl fod yn lle da i gael gwybod mwy.

- Mae gwybodaeth NICE am ganllawiau IechydTech yn esbonio beth yw IechydTech a sut rydym yn eu hasesu.
- Mae gwybodaeth NICE am argymhellion ar gyfer IechydTech yn esbonio beth mae dim ond fel rhan o astudiaeth ymchwil yn ei olygu.

Gall Pancreatic Cancer UK, 0808 801 0707, roi cyngor a chymorth i chi.

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich tîm Healthwatch lleol.

ISBN: 978-1-4731-8999-7